# BRISCOE, THOMAS (1813 - 1895), offeiriad ac ysgolhaig yn yr ieithoedd clasurol a Hebraeg

**Enw:** Thomas Briscoe
**Dyddiad geni:** 1813
**Dyddiad marw:** 1895
**Rhiant:** Richard Briscoe
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad ac ysgolhaig yn yr ieithoedd clasurol a Hebraeg
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** John Williams James

Ganwyd yn Wrexham, 30 Mehefin 1813, mab Richard Briscoe, fferyllydd. Addysgwyd ef yn ysgol Rhuthyn a Choleg Iesu, Rhydychen (B.A. yn y dosbarth cyntaf yn y clasuron, 1833; M.A., 1836; B.D., 1843; D.D., 1868). Fe'i hordeiniwyd yn ddiacon, 1836, ac yn offeiriad, 1837, gan esgob Rhydychen. Bu'n gymrawd Coleg Iesu, Rhydychen, 1834-1859; yn athro yno, 1835-9; ac yn is-brifathro, 1849-1858. Cafodd ei wneuthur yn gurad-parhaol Henllan, sir Ddinbych, 1830-1840, yn ficer Caergybi, 1858-1895, ac yn ganghellor eglwys gadeiriol Bangor yn 1877.

Yr oedd Briscoe 'n ysgolhaig da yn yr ieithoedd hen a diweddar, y Gymraeg yn eu plith. Yn 1851 cyfieithodd yn Gymraeg, o'r Almaeneg, waith Ellendorff ar y testun *Ist Petrus in Rom und Bischof der Romischen Kirche gewesen?* Cyfieithodd y llyfrau canlynol o'r Hebraeg : *Esaiah* 1853, *Job* 1854, y *Psalmau* a'r *Diarhebion* 1855; yn 1894 cyfieithodd y *Testament Newydd* i'r Gymraeg gyda darlleniadau'r fersiwn ddiwygiedig Saesneg. Bu farw 16 Chwefror 1895. Rhoddwyd ei lyfrgell i lyfrgell eglwys gadeiriol Bangor.

## Awdur

**Y Canghellor John Williams James**

## Ffynonellau


*Crockford's Clerical Directory*

*Bangor Diocesan Calendar and Clergy List ...*

A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops* (1929)

H. Blackwell, NLW MSS 9252A: A Dictionary of Welsh Biography


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7787900


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu